**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
14 Tachwedd 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi'r gofrestr etholiadol llywodraeth leol ddiwygiedig ar gyfer ei ardal yn dilyn canfasiad blynyddol 2024, yn unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("**Deddf 1983**").

Mae'r rheoliadau yn symud y dyddiad hwnnw o 1 Rhagfyr 2024 i 1 Chwefror 2025. Mae hyn i bob pwrpas yn caniatáu dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi eu cofrestrau etholiadol llywodraeth leol diwygiedig i ystyried y gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu cymhwysedd dinasyddion yr UE sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd o dan adran 9A(1) o Ddeddf 1983, i sicrhau, "so far as is reasonably practicable, persons who are entitled to be registered in a register (and no others) are registered in it," (h.y. dyletswydd i gynnal cofrestrau etholiadol cyflawn a chywir).

Mae adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983 yn rhoi dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'u cofrestr etholiadol ar ôl diwedd y canfasiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno ac erbyn 1 Rhagfyr fan bellaf bob blwyddyn, neu erbyn unrhyw ddyddiad diweddarach a ragnodir drwy reoliadau. Yr unig eithriad, o dan adran 13(1A) o Ddeddf 1983, yw, os bydd etholiad yn cael ei gynnal rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr yn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd y dyddiad cyhoeddi terfynol ar gyfer y gofrestr etholiadol ddiwygiedig yn newid yn awtomatig i 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Gwneir y rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ‘drafft’.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r canfasiad presennol yn casglu gwybodaeth am ychwanegiadau posibl i'r gofrestr etholiadol, newidiadau iddi a gwybodaeth i’w dileu ohoni.

Mae cyfnod y canfasiad blynyddol yn para rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr ac mae'n cael ei yrru gan ofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi cofrestr etholiadol ddiwygiedig ar gyfer eu hardal erbyn 1 Rhagfyr (yn ddarostyngedig i'r eithriad yn adran 13(1A) o Ddeddf 1983).

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod gerbron Senedd y DU offeryn statudol sy'n

cynnwys rheoliadau sy'n galluogi gweithredu'r newidiadau i hawliau pleidleisio dinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a wneir gan adran 15 o Ddeddf Etholiadau 2022 ac atodlen 8 iddi. Nid yw'r newidiadau hyn i'r etholfraint ond yn gymwys i etholiadau penodol a gedwir yn ôl. Mae Rhan 2 o'r offeryn hwnnw'n darparu ar gyfer prosesau adolygu mewn perthynas â chofrestru etholwyr yr UE yn Lloegr, a chymhwysedd dinasyddion yr UE sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gan ei gwneud yn bosibl ac yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu cymhwysedd dinasyddion yr UE sydd eisoes wedi'u cofrestru o dan y meini prawf newydd o fewn y cyfnod rhwng dechrau'r newid i'r etholfraint a 31 Ionawr 2025.

Yn gysylltiedig â hyn, mae Rhan 3 o'r offeryn hwnnw'n cynnwys darpariaethau i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ohirio cyhoeddi'r cofrestrau llywodraeth leol diwygiedig yn Lloegr a'r cofrestrau o etholwyr seneddol y DU yng Nghymru a Lloegr o 1 Rhagfyr 2024 i 1 Chwefror 2025. Diben hyn yw rhoi cyfnod hwy i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau eu canfasiad yn ogystal â'r broses adolygu ofynnol o ran dinasyddion yr UE.

Nid yw darpariaethau Rhan 3 yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru mewn perthynas â chyhoeddi'r cofrestrau llywodraeth leol, felly mae angen gwneud newid tebyg hefyd i ddyddiad cyhoeddi terfynol cofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n fater datganoledig. Bydd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023 yn darparu'r hyblygrwydd hwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru drwy estyn dyddiad cyhoeddi terfynol cofrestrau etholiadol llywodraeth leol diwygiedig 2024. Mae rheoliad 2 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023 yn darparu mai'r dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi cofrestrau llywodraeth leol diwygiedig 2024 yw 1 Chwefror 2025.

## 5. Ymgynghori

Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adrannau 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud rheoliadau y mae adran 201(2) o Ddeddf 1983 yn gymwys iddynt. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Awst a 22 Medi ac fe'i rhannwyd hefyd â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, gweinyddwyr etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cafwyd pum ymateb i'r ymgynghoriad. Gwnaeth yr ymatebion naill ai beidio â chynnig sylwadau neu nodi cytundeb bod angen y ddeddfwriaeth i sicrhau cysondeb yn y ffordd y cyhoeddir cofrestrau etholiadol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru is-ddeddfwriaeth ond nid ydynt yn newid y polisi na'i effaith mewn modd sylweddol. Felly, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith

Rheoleiddiol. Mae hyn yn cyd-fynd â’r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth. Bydd yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ymgymryd â'r un gweithgareddau ag y byddent fel arfer, ond byddant yn cael dau fis ychwanegol i'w cwblhau os oes angen. O'r herwydd, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith ar gostau yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon.

Er bod cofrestrau etholiadol yn cael eu diweddaru a'u cyhoeddi'n fisol, nid yw'r diweddariadau misol hyn fel arfer yn cael eu cyhoeddi yn y ddau fis cyn cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig derfynol. Gan y byddai hyn hefyd yn wir pan gynhelir etholiad yn ardal Swyddog Cofrestru Etholiadol rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr (gweler uchod), nid ydym yn credu y bydd unrhyw effaith i’r newid hwn.